**Caffael Callach.**
Cymru Gryfach.

**Smarter Procurement.**
Stronger Wales.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pecyn Cymorth i Randdeiliaid

Cyflwyniad
Prif negeseuon
Defnyddio'r pecyn cymorth
Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
Cwestiynau Cyffredin
Erthygl cylchlythyr enghreifftiol
Galwad i weithredu

# Croeso i Becyn Cymorth Ymgyrch Caffael Llywodraeth Cymru.

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i rymuso rhanddeiliaid fel eu bod yn hyrwyddo diwygiadau caffael Llywodraeth Cymru sy'n dod i rym ar **24 Chwefror 2025**. Bydd y newidiadau hyn yn trawsnewid sut mae caffael cyhoeddus yn gweithio ar draws Cymru, gan ei wneud yn fwy call, yn fwy cynhwysol ac wedi alinio'n well gyda **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.




Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau negeseuon cyson sy'n cael effaith ac sy'n berthnasol i gyflenwyr, prynwyr a'r cyhoedd yn ehangach. Beth am wneud **caffael callach ar gyfer Cymru gryfach** yn realiti.





# Prif negeseuon

Cyflwyniad

Prif Negeseuon 1 o 2

Defnyddio'r pecyn cymorth

Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Cwestiynau Cyffredin

Erthygl cylchlythyr enghreifftiol

Galwad i weithredu

## Beth yw'r ddeddfwriaeth newydd?

### Deddf Caffael 2023 a'r Rheoliadau Cysylltiedig i Gymru

Bydd y rhain yn diwygio'r system gaffael yng Nghymru fel bod pob punt yn mynd ymhellach ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Byddant yn gwneud caffael yn fwy syml, yn fwy hyblyg, ac yn fwy tryloyw er mwyn mwynhau budd cyhoeddus a byddant yn dod i rym ar 24 Chwefror 2025.

### Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae'r Ddeddf yn rhoi caffael cyfrifol yn gymdeithasol ar waith. Bydd yn sicrhau bod caffael cyhoeddus yn cyfrannu tuag at les Cymru mewn ffordd gyson a chyfrifol. Mae'r Ddeddf yn gofyn am lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ddeillio o bob caffael. Mae'r dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth i rym i'w gadarnhau ond disgwylir iddo fod yn gynnar yn 2026.

### Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwr) (Cymru) 2025

Bydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwr) (Cymru) 2025 yn cyflwyno'r Drefn Dethol Darparwr yng Nghymru. Bydd y newidiadau'n lleihau biwrocratiaeth drwy gyflwyno system hyblyg a phriodol ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd a ddarperir ar ran y GIG yng Nghymru. Bydd y Drefn yn dod i rym ar 24 Chwefror 2025.

Bydd y diwygiadau hyn yn gwneud caffael yn fwy **hyblyg**, **yn symlach** a **mwy tryloyw**, er budd pawb sy'n yn gysylltiedig.

## Prif fuddion

**Ar gyfer cyflenwyr:**

- Mynediad haws at gontractau sector cyhoeddus drwy brosesau sydd wedi'u symleiddio, gan gynnwys storio gwybodaeth am gyflenwyr craidd ar y Platfform Digidol Canolog.
- Llai o rwystrau ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig (SMEs) a Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol (VCSEs).
- Cryfhau darpariaethau ar gyfer talu ar amser.
- Mwy o sicrwydd ynghylch sut mae buddion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yn cael eu cyrchu a'u mesur.

**Ar gyfer prynwyr:**

- Prosesau caffael wedi'u symleiddio a'u gwneud yn fwy hyblyg.
- Adnoddau gwell er mwyn darparu ac adrodd ar fuddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.
- Mwy o dryloywder a rheoli contractau yn well.

**I bawb:**

- Bydd y Platfform Digidol Canolog yn cynnig gofod a rennir er mwyn i gyflenwyr a phrynwyr gofrestru a rheoli ymatebion cymhwyso. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i storio gwybodaeth greiddiol am gyflenwyr i'w defnyddio mewn ceisiadau niferus. Bydd y Platfform Digidol Cymreig (Sell2Wales) yn cael ei ddefnyddio i greu a chyhoeddi'r holl hysbysiadau a gellir ei ddefnyddio ii reoli cyfleoedd caffael.
- Cynnydd mewn gwerth hir dymor drwy flaenoriaethu deilliannau sydd o fudd i gymunedau, gweithwyr, busnesau a'r amgylchedd ar gyfer Cymru gryfach.
- Bydd y newidiadau'n effeithio ar bob sefydliad sector cyhoeddus, yn ogystal ag unrhyw un sy'n cyflenwi gwaith, nwyddau a gwasanaethau i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y GIG.

Cyflwyniad

Prif negeseuon 2o2

Defnyddio'r pecyn cymorth

Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Cwestiynau Cyffredin

Erthygl cylchlythyr enghreifftiol

Galwad i weithredu



# Beth fydd y ddeddfwriaeth caffael newydd yn ei darparu i Gymru?

**Contractau syml a thryloyw** gyda gwell mynediad i gyflenwyr o bob math a maint.

**Buddion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol** ar gyfer cymunedau ac unigolion, yn unol â'r ddyletswydd caffael cyfrifol, er mwyn darparu traweffeithiau mwy positif ar gyfer ein cymunedau yng Nghymru.

**Prosesau wedi'u symleiddio** er mwyn arbed amser a gwella deilliannau.

**Mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu** rhwng prynwyr a chyflenwyr.

**Gwell cyfleoedd** ar gyfer ymgysylltiad rhanddeiliaid yn y broses gaffael.


**Arloesi** er mwyn darparu gwell gwerth i'r pwrs cyhoeddus.

**Mwy o hyblygrwydd** er mwyn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer prynwyr a chyflenwyr ac atal unrhyw broblemau posib cyn iddynt ddigwydd.

**Buddion ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig a Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol** gan ei gwneud hi'n haws iddynt gael mynediad at gyfleoedd caffael i'r sector cyhoeddus.







**Caffael Callach.**
Cymru Gryfach.

**Smarter Procurement.**
Stronger Wales.


Cyflwyniad

Prif negeseuon

**Defnyddio'r pecyn cymorth**

Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Cwestiynau Cyffredin

Erthygl cylchlythyr enghreifftiol

Galwad i weithredu


# Defnyddio'r pecyn cymorth

Er mwyn ei gwneud hi'n haws i chi gefnogi ymgyrch Caffael Llywodraeth Cymru, rydym wedi creu pecyn cymorth gyda deunyddiau parod. Mae'r adnoddau hyn am ddim ac ar gael i unrhyw un eu defnyddio.
Y cyfan sydd angen ei wneud yw eu lawrlwytho a dechrau rhannu heddiw.

**CLICIWCH YMA I LAWRLWYTHO**

**Mae'r adnoddau'n cynnwys:**

- **Graffeg cyfryngau cymdeithasol:** I'r dim ar gyfer rhannu ar blatfformau megis X, Facebook, Instagram neu LinkedIn.
- **Baneri ac eiconau:** Gallwch eu defnyddio mewn ebyst, ar eich gwefan neu mewn cyflwyniadau er mwyn tynnu sylw at yr ymgyrch.
- **Animeiddiad:** Cynnwys gweledol diddorol sy'n tynnu sylw ar unwaith ar-lein.
- **Sleidiau Cyflwyniad:** Perffaith ar gyfer cyflwyno'r newidiadau i'ch tîm a'ch rhwydweithiau ehangach.

## Enghreifftiau












Cyflwyniad
Prif negeseuon
Defnyddio'r pecyn cymorth
Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
Cwestiynau Cyffredin
Erthygl cylchlythyr enghreifftiol
Galwad i weithredu

# Postiadau cyfryngau cymdeithasol enghreifftiol

Dyma rai postiadau sydd wedi eu hysgrifennu ymlaen llaw y gallwch eu rhannu ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i ledaenu'r gair. Mae croeso i chi gyflwyno elfennau personol iddynt.

**Ar gyfer prynwyr:**

- Mae caffael yng Nghymru yn newid. O 24 Chwefror 2025, bydd deddfwriaeth newydd yn gwneud prosesau caffael yn symlach ac yn fwy tryloyw. Dysgwch fwy: llyw.cymru/caffaelcallach
- Bydd deddfwriaeth caffael newydd yn darparu buddion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol i unigolion, ac yn darparu traweffeithiau positif mwy ar gyfer ein cymunedau yng Nghymru: llyw.cymru/caffaelcallach
- Ewch draw i'n gwefan i ganfod mwy am y ddeddfwriaeth caffael newydd a'r gefnogaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch timau wedi paratoi ar gyfer y newidiadau newydd: llyw.cymru/caffaelcallach
- Bydd y Platfform Digidol Canolog newydd, sy'n gweithredu ochr yn ochr gyda'r Platfform Digidol Cymreig/Sell2Wales, yn galluogi i chi ddilyn proses gaffael fwy effeithiol, gyda mwy o hyblygrwydd a thryloywder. Byddwch yn barod - mae newid ar y ffordd o 24 Chwefror 2025. llyw.cymru/caffaelcallach

**Ar gyfer cyflenwyr:**

- Mae cyfleoedd cyffrous ar y gorwel. Cofrestrwch ar y Platfform Digidol Canolog newydd o 24 Chwefror 2025, yn ogystal â'r Platfform Digidol Cymreig/Sell2Wales, er mwyn cael mynediad at gontractau sector cyhoeddus newydd yng Nghymru. Byddwch yn barod ar gyfer newid: llyw.cymru/caffaelcallach
- Mae newidiadau'n dod i gontractau sector cyhoeddus yng Nghymru. O 24 Chwefror 2025, bydd Mentrau Bach a Chanolig yn ei chael hi'n haws i gael mynediad at gyfleoedd drwy gaffael symlach, mwy tryloyw. llyw.cymru/caffaelcallach
- O 24 Chwefror 2025, gallwch gael mynediad at adnoddau symlach, mwy o dryloywder a gwell cyfleoedd i gydweithredu. Byddwch yn barod ar gyfer caffael clyfar. llyw.cymru/caffaelcallach
- Byddwch yn barod ar gyfer y newidiadau caffael yng Nghymru drwy gael mynediad at adnoddau dysgu am ddim ar gyfer cyflenwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn llyw.cymru/caffaelcallach

**Cyffredinol:**

- Mae'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli caffael cyhoeddus yng Nghymru'n newid. Mae'n bwysig bod pawb sydd yn ymwneud â chaffael sector cyhoeddus yng Nghymru yn deall y newidiadau a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn paratoi. llyw.cymru/caffaelcallach
- Mae dros £10 biliwn yn cael ei wario'n flynyddol ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru. Bydd deddfwriaeth newydd yn sicrhau bod y gwariant hwn yn darparu gwerth ardderchog i gymunedau, busnesau a'r amgylchedd. Dysgwch fwy: llyw.cymru/caffaelcallach
- Gallwch gael mynediad at hyfforddiant am ddim a chefnogaeth er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch timau wedi paratoi ar gyfer y newidiadau newydd. Dysgwch fwy: llyw.cymru/caffaelcallach
- O dan y ddeddfwriaeth newydd, bydd y dyletswyddau caffael cyfrifol yn gymdeithasol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau sy'n cynnig contractau fod yn fwy cyson wrth geisio deilliannau llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol gan eu caffael. Dysgwch fwy yn llyw.cymru/caffaelcallach

Cyflwyniad
Prif negeseuon
Defnyddio'r pecyn cymorth
Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
Cwestiynau Cyffredin
Erthygl cylchlythyr enghreifftiol
Galwad i weithredu

# Cwestiynau Cyffredin

## Pwy sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau?

Mae'r diwygiadau'n berthnasol i'r holl brynwyr a chyflenwyr sy'n ymwneud â chontractau sector cyhoeddus.

## Beth yw'r Platfform Digidol Canolog?

Y Platfform Digidol Canolog (CDP) fydd lle mae'r holl awdurdodau contractio yn y DU yn cyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â chaffael. Dyma hefyd lle mae dynodwyr yn cael eu cyhoeddi/cofnodi a lle mae cyflenwyr yn gallu mewnbynnu eu gwybodaeth greiddiol gan gyflenwyr sy'n cael ei defnyddio'n aml. Bydd yn blatfform digidol wedi'i integreiddio'n llawn, lle bydd hysbysiadau, mewngofnodi a chofrestru, a gwybodaeth gan gyflenwyr i gyd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cefnogi caffael sector cyhoeddus.

Bydd angen i brynwyr a chyflenwyr fel ei gilydd gofrestru ar y Platfform Digidol Canolog er mwyn cael eu dyfais adnabod unigryw, y byddant wedyn ei angen er mwyn ychwanegu at eu proffiliau ar y Platfform Digidol Cymreig/Sell2Wales.

## Beth yw Sell2Wales

Sell2Wales yw'r Platfform Digidol Cymreig sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n helpu cyflenwyr i ddod o hyd i gontractau sector cyhoeddus yng Nghymru ac ymgeisio amdanynt. Mae'n rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddefnyddio Sell2Wales er mwyn cyhoeddi hysbysiadau yn unol gyda'r ddeddfwriaeth. Dylai cyflenwyr barhau i gofrestru ar Sell2Wales os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny.

## Sut ydw i'n paratoi?

**Cyflenwyr:** Gwnewch eich hun yn ymwybodol o'r newidiadau a chofrestru ar y Platfform Digidol Canolog o 24 Chwefror 2025. Byddwch wedyn angen ychwanegu eich ID unigryw ac allwedd API i mewn i'ch proffil Sell2Wales.

**Pawb:** Ewch draw i llyw.cymru/caffaelcallach ar gyfer canllawiau manwl a deunyddiau cefnogi.

## Pa gymorth sydd ar gael?

Gallwch gael mynediad i hyfforddiant drwy Goleg Masnachol y Llywodraeth (GCC) a Dysgu@Cymru, ac ymuno gyda Chymunedau Ymarfer ar gyfer dysgu a rennir. Mae yna hefyd adnoddau dysgu am ddim ar ein gwefan, yn ogystal â chanllawiau a Chwestiynau Cyffredin.

Cyflwyniad

Prif negeseuon

Defnyddio’r pecyn cymorth

Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Cwestiynau Cyffredin

Erthygl cylchlythyr enghreifftiol

Galwad i weithredu

# Erthygl cylchlythyr enghreifftiol

**Llinell Bwnc:**

**Mae Caffael yng Nghymru yn Newid - Byddwch yn Barod**

**Prif Destun:**

**Caffael Callach. Cymru Gryfach. Smarter Procurement. Stronger Wales.**

Mae caffael cyhoeddus yng Nghymru yn ymgymryd â’i newidiadau mwyaf arwyddocaol mewn degawd. O 24 Chwefror 2025, bydd **Deddf Caffael 2023** a rheoliadau cysylltiedig yng Nghymru, **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** a **Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr)(Cymru) 2025** yn trawsnewid sut mae contractau sector cyhoeddus yn cael eu dyfarnu.

Mae’r prif fuddion yn cynnwys:

**Ar gyfer cyflenwyr:**

- Mynediad haws at gontractau sector cyhoeddus drwy brosesau sydd wedi’u symleiddio.
- Llai o rwystrau ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig a Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol (VCSEs).
- Cryfhau darpariaethau ar gyfer talu ar amser.

**Ar gyfer prynwyr:**

- Prosesau caffael wedi’u symleiddio ac sy’n fwy hyblyg.
- Adnoddau gwell er mwyn darparu buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.
- Mwy o dryloywder a chontractau wedi’u rheoli’n well.

**Ar gyfer pawb:**

- Mwy o gydweithredu, gan annog cysylltiadau cryfach rhwng prynwyr a chyflenwyr, ac sy’n ymwneud â’r holl randdeiliaid o ran gwneud penderfyniadau.
- Cynnydd mewn gwerth hirdymor drwy flaenoriaethu deilliannau sydd o fudd i gymunedau, gweithwyr, busnesau a’r amgylchedd ar gyfer Cymru gryfach.

Peidiwch â cholli’r cyfle hwn i baratoi ar gyfer caffael callach.

**Dysgwch fwy a chael mynediad at gefnogaeth yn:**
llyw.cymru/caffaelcallach

Cyflwyniad
Prif negeseuon
Defnyddio'r pecyn cymorth
Postiadau enghreifftiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
Cwestiynau Cyffredin
Erthygl cylchlythyr enghreifftiol
Galwad i weithredu

# Galwad i weithredu

Beth am sicrhau bod pob prynwr a chyflenwr yng Nghymru yn deall y newidiadau hyn.

**Cyflenwyr**

Cofrestrwch ar y Platfform Digidol Canolog a diweddarwch eich proffil Sell2Wales o 24 Chwefror 2025.

**Prynwyr**

Sicrhewch fynediad at hyfforddiant a chanllawiau i'ch paratoi ar gyfer y trawsnewid.

**Arweinwyr**

Hyrwyddwch ddiwygiadau caffael ac annog pobl i fabwysiadau'r hyblygrwydd newydd yn gynnar. Am ragor o wybodaeth, ewch i: llyw.cymru/caffaelcallach.

**Gyda'n gilydd gallwn wneud caffael yn gallach ar gyfer Cymru gryfach.**

Diolch ymlaen llaw am ein cynorthwyo ni i dynnu sylw at ein hymgyrch. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, adborth neu os hoffech chi drafod cyfle penodol i ni rannu'r ymgyrch, cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda yn procurementreformteam@gov.wales.





